Cynllun Strategol CGA 2026-29

Ein gweledigaeth

Bod yn rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol, dibynadwy sy'n gweithio er budd y cyhoedd i gynnal proffesiynoldeb a gwella safonau yn y gweithlu addysg yng Nghymru.

Ein nodau

- Cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru.
- Cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymysg athrawon ac eraill sy'n cefnogi addysgu a dysgu yng Nghymru.
- Diogelu buddiannau dysgwyr, rhieni/ gwarcheidwaid a'r cyhoedd, a chynnal ffydd a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg.

Ein swyddogaethau

- Sefydlu a chynnal Cofrestr o Ymarferwyr Addysg.
- Cynnal Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol.
- Ymchwilio a gwrando honiadau allai gwestiynu priodoldeb i ymarfer ymarferwyr cofrestredig.
- Achredu a monitro Addysg Gychwynnol Athrawon.
- Rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ac eraill.
- Monitro sefydlu a gwrando apeliadau sefydlu.
- Hyrwyddo gyrfaoedd yn y gweithlu addysg.
- Ymgymryd â gwaith penodol pan wahoddir gan Lywodraeth Cymru.

Amcan 1

Bod yn rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol, sy'n gweithio er budd y cyhoedd ac yn meithrin hyder yn y gweithlu addysg.

Amcan 2

Cefnogi proffesiynoldeb a dysgu, a hyrwyddo gyrfaoedd o fewn y gweithlu addysg.

Amcan 3

Llywio, llunio, a dylanwadu ar bolisi addysgol a gweithio i gryfhau diogelu trwy reoleiddio'r gweithlu addysg yng Nghymru yn well.

Amcan 4

Bod yn sefydliad effeithlon, gwydn, a chynaliadwy, sy'n cynnig gwerth am arian i gofrestreion

Ein gwerthoedd

Tegwch | Cefnogaeth | Rhagoriaeth | Cydweithredu | Annibyniaeth